Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid

Cyrraedd Safonau Uchel Gyda'n Gilydd

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog 3

Cyflwyniad 4
- Ein hymrwymiad
- Oes
- Cwmpas
- Cynlluniau wrth gefn
- Y Gymraeg

Adran Un: Gweledigaeth ac Egwyddorion 7
- Beth yw ein gweledigaeth?
- Egwyddorion
- Datblygu cynaliadwy
- Twf gwyrdd

Adran Dau: Ffyrdd o weithio – Dull sy'n seiliedig ar Ganlyniadau 11
- Defnyddio dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau
- Atebolrwydd am y boblogaeth
- Atebolrwydd am raglen a pherfformiad
- Yr agenda datblygu data

Adran Tri: Gweithredu, Monitro a Gwerthuso 13
- Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Monitro Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Rhwydweithiau partneriaeth
- Cylch cynllunio ac adrodd

Adran Pedwar: Sut y gallwch chi fod yn rhan 16

Atodiad Un: Templed Cerdyn Tystiolaeth 17

ISBN digidol 978 1 4734 1875 2

© Hawlfraint y Goron 2014

WG22290

Rhagair

Rhagair gan Rebecca Evans, y Dirprwy Weinidog Amaeth a Physgodfeydd

Croesawaf lansiad **"Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid – Cyrraedd Safonau Uchel gyda'n Gilydd"**. Mae'r Fframwaith yn cynnig cyfle pwysig i symud at ffordd wahanol o weithio yn ogystal â helpu i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau ar gyfer Cymru wrth inni weithredu.

Mae gan y Fframwaith rôl hanfodol o ran cefnogi Llywodraeth Cymru yn ei hymrwymiad i greu swyddi a hybu twf. Rwyf yn edrych ymlaen at gydweithio â phawb sydd â diddordeb mewn iechyd a lles anifeiliaid er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau dros y tymor hir iddynt hwy ac i Gymru.

Mae dull cadarn o weithio mewn partneriaeth yn hanfodol i lwyddiant y Fframwaith. Mae gan bob un ohonom gyfraniad i'w wneud i wella iechyd a lles anifeiliaid ar lefel genedlaethol. Mae'r ffordd rydym yn trin anifeiliaid yn adlewyrchiad pwysig o werthoedd ein cymdeithas. Mae safonau uchel ym maes iechyd a lles anifeiliaid yn golygu llai o berygl i iechyd pobl ac yn helpu hefyd i gynnal diwydiant ffermio proffidiol.

Mae'r Fframwaith yn disgrifio ein gweledigaeth ar gyfer iechyd anifeiliaid a hynny drwy bum canlyniad cyffredin y cytunwyd arnynt yn sgil ymgynghori â'r cyhoedd. Drwy'r canlyniadau hyn, rwyf yn awyddus i archwilio sut y gall materion iechyd a lles anifeiliaid gael effaith ar draws agenda ehangach, gan gynnwys cysylltiadau â strategaethau eraill megis Cynllun Datblygu Gwledig Cymru, a Sicrhau Twf: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-20, yn ogystal â chysylltiadau â'r economi ac iechyd y cyhoedd.

Mae angen tystiolaeth arnom yn ogystal â fframwaith monitro a gwerthuso cadarn a fydd yn sail i'r gwaith hwn. Rwyf yn rhoi fy nghefnogaeth lwyr i fwy o gydweithredu gyda phartneriaid yn y diwydiant a phartneriaid eraill wrth gasglu, rhannu a defnyddio data i gytuno ar flaenoriaethau, nodi atebion a gwneud penderfyniadau effeithiol sy'n cynyddu effaith ac yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl.

Mae Adran pedwar yn y ddogfen hon yn disgrifio'r amrywiol ffyrdd y gallwch gymryd rhan a chwarae rôl fwy wrth helpu i godi safonau iechyd a lles anifeiliaid gyda'n gilydd. Rwyf yn awyddus i'ch annog i gymryd rhan ac i roi eich cefnogaeth wrth fwrw ymlaen â hyn.

Rebecca Evans
Gorffennaf 2014

Cyflwyniad

1. Mae gan bob un ohonom gyfraniad i'w wneud i godi safonau iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru. Gall y ffordd y mae anifeiliaid yn cael eu bridio, eu magu a'u trin gydol eu bywyd, eu hiechyd a'u lles a'r polisïau a gyflwynwyd i reoli peryglon clefydau fod â goblygiadau mawr i'r amgylchedd ac i gymdeithas yn gyffredinol. Gall achosion o glefydau a'r mesurau i'w rheoli fod â goblygiadau eang a chostus i iechyd y cyhoedd, yr economi a'r amgylchedd.

2. Mae **Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid** yn disgrifio ein cynllun ar gyfer sicrhau gwelliannau parhaus a pharhaol yn safonau iechyd a lles anifeiliaid a gedwir, gan helpu hefyd i ddiogelu iechyd y cyhoedd a gwneud cyfraniad at yr economi a'r amgylchedd.

3. Amcanion cyffredinol y Fframwaith yw adeiladu ar y cynnydd a wnaed yng Nghymru i godi safonau iechyd a lles anifeiliaid drwy:

   - defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth er mwyn sicrhau canlyniadau cyffredin
   - gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu fframwaith monitro a gwerthuso cadarn, gyda sylfaen dystiolaeth gref yn sail iddo.

Ein hymrwymiad

4. Os ydym am wneud gwahaniaeth yng Nghymru a rhoi'r cyfle gorau inni newid y canlyniadau hyn yn gofnod cyrhaeddiad yn y dyfodol, mae angen inni berchnogi'r Fframwaith hwn gyda'n gilydd.

5. Mae gan Lywodraeth Cymru rôl i'w chwarae ond ni all wneud hyn ar ei phen ei hun. Bydd gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i lwyddiant hyn. Mae'n debygol y bydd heriau'n wynebu pob un ohonom, ond er mwyn dangos pa mor benderfynol ydym, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud yr ymrwymiadau canlynol:

   - Parhau i ddilyn yr egwyddorion canlynol yn ein ffyrdd o weithio:
     - gweithio mewn partneriaeth
     - hyrwyddo manteision iechyd a lles anifeiliaid; mae atal yn well na gwella
     - deall a derbyn swyddogaethau a chyfrifoldebau
     - sicrhau gwell dealltwriaeth o gost a budd arferion iechyd a lles anifeiliaid
     - darparu a gorfodi safonau yn effeithiol.
   - Gweithio gyda Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid a gofyn am eu cyngor a'u cyfraniad er mwyn codi safonau iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru a ffordd o fynd i'r afael ag ystod o glefydau anifeiliaid.

- Sicrhau ein bod yn gwarchod rhag ymosodiad ac ymlediad clefydau heintus mewn anifeiliaid, a sicrhau ein bod yn barod drwy'r amser i ymdrin ag unrhyw achos o glefyd hysbysadwy mewn anifeiliaid a allai godi yng Nghymru.
- Sicrhau bod cynlluniau cadarn wrth gefn ar waith er mwyn gallu ymateb yn effeithiol ac yn effeithlon i achosion o glefydau egsotig mewn anifeiliaid.
- Sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â chlefydau hysbysadwy endemig mewn anifeiliaid, megis TB, yn y ffordd fwyaf effeithiol drwy adolygu, ymgysylltu, herio, a chasglu a dadansoddi tystiolaeth.
- Sicrhau ein bod yn cael y budd mwyaf o gynlluniau, polisïau a rhaglenni eraill sydd ar gael yn awr ac yn y dyfodol e.e. Cynllun Datblygu Gwledig Cymru a Sicrhau Twf: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-20, a fydd yn gallu helpu i ddylanwadu'n gadarnhaol ar safonau iechyd a lles anifeiliaid.
- Llunio cynllun gweithredu blynyddol sy'n nodi meysydd gwaith sy'n flaenoriaeth, cerrig milltir er mwyn mesur yr hyn a gyflawnir ac sy'n helpu i werthuso tystiolaeth a chynnydd.
- Sefydlu rhwydweithiau partneriaeth a ddefnyddir i wella ymgysylltiad rhanddeiliaid a hyrwyddo ffordd fwy cynhwysol o weithio.
- Cynorthwyo yn y gwaith o gasglu tystiolaeth a ddefnyddir i gytuno ar flaenoriaethau a monitro cynnydd.
- Cynnal adolygiad canol tymor i werthuso'r hyn a gyflawnwyd a'r cynnydd o'u cymharu â Chanlyniadau Strategol y Fframwaith.

Oes

6. Oes y Fframwaith yw deg mlynedd. Ond, sylweddolir y dylai'r Fframwaith gael ei fonitro'n ofalus drwy gydol y cyfnod hwn yn ogystal â bod yn hyblyg i ystyried ac ymateb i ddatblygiadau newydd a newidiadau mewn polisi drwy gydol ei oes.

Cwmpas

7. Datblygwyd y Fframwaith i roi sylw i iechyd a lles:
   - da byw fferm
   - anifeiliaid anwes
   - anifeiliaid sy'n gweithio
   - anifeiliaid sy'n cael eu cadw ac sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon
   - dyframaeth
8. Rhoddir sylw i fywyd gwyllt hefyd os yw ein gweithredoedd yn effeithio ar eu hiechyd a'u lles neu os oes perygl y bydd bywyd gwyllt yn trosglwyddo clefyd i anifeiliaid eraill neu i bobl.

Cynlluniau wrth Gefn

9. Bydd Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn cefnogi'r broses reolaidd o adolygu a phrofi cynlluniau wrth gefn ar gyfer ymdrin ag achosion o glefydau egsotig mewn anifeiliaid.

Y Gymraeg

10. Wrth weithredu Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid, byddwn yn cydymffurfio ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru tuag at y Gymraeg.

11. Y Gymraeg a'r Saesneg yw ieithoedd gweithio Llywodraeth Cymru. Yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg 2011, mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

12. Mae rhagor o wybodaeth am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r Gymraeg a'i gweledigaeth o genedl ddwyieithog ar gael yma: http://wales.gov.uk/topics/welshlanguage/?skip=1&lang=cy

Adran Un: Gweledigaeth ac Egwyddorion

13. Mae'r adran hon yn disgrifio ein gweledigaeth ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru, yr egwyddorion sy'n sail i'r ffordd rydym yn gweithio at gyflawni'r weledigaeth honno a sut y mae iechyd a lles anifeiliaid yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy a'r agenda twf gwyrdd.

Beth yw ein gweledigaeth?

14. Gellir disgrifio'r weledigaeth tymor hir ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru drwy pump canlyniad strategol. Mae'r rhain wedi'u rhannu rhwng y rheini lle bydd ymyriadau/polisi iechyd a lles anifeiliaid yn cael y dylanwad a'r effaith fwyaf a'r rheini lle bydd polisi iechyd a lles anifeiliaid yn cael llai o effaith ond yn dal i wneud cyfraniad pwysig at eu cyflawni.

Diagram Un: Canlyniadau Strategol Fframwaith Cymru Ar Iechyd A Lles Anifeiliaid

Effaith Uniongyrchol – y dylanwad a'r effaith fwyaf

- Mae gan gymru anifeiliaid cynhyrchiol iach
- Mae gan anifeiliaid yng nghymru ansawdd bywyd da
- Bod gan bobl ffydd a hyder yn y ffordd y mae bwyd yn cael ei gynhyrchu ac yn y modd o ddiogelu iechyd y cyhoedd

Effaith Anuniongyrchol – llai o effaith ond yn dal i wneud cyfraniad mawr

- Mae gan gymru economi wledig lewyrchus
- Mae gan gymru amgylchedd o safon uchel

15. Bydd canlyniadau rhaglenni yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r canlyniadau strategol hyn a byddant yn adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r diwydiant. Er enghraifft, Rhaglen i Ddileu TB neu gamau gweithredu i fynd i'r afael â chlefydau eraill megis dolur rhydd feirysol y gwartheg. Disgrifir y broses ar gyfer cytuno â'r blaenoriaethau hyn a'u monitro yn **Adran Tri**.

Egwyddorion

16. Mae pum prif egwyddor yn arwain y ffordd rydym yn gweithio at gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru. Datblygwyd y rhain yn gyntaf fel rhan o Strategaeth Prydain Fawr ar Iechyd a Lles Anifeiliaid ac maent yn dal yn hanfodol i'n dull newydd o weithio.

    - **Hyrwyddo manteision iechyd a lles anifeiliaid; mae atal yn well na gwella** – drwy arferion hwsmonaeth da, mabwysiadu safonau lles uchel a mesurau atal clefydau (bioddiogelwch), gallwn leihau clefydau ymysg anifeiliaid ac effaith ar les a lleihau'r tebygolrwydd y bydd da byw yn dal clefyd neu'n ei ledu. Mae'r manteision i'r diwydiant ac i'r Llywodraeth yn glir, llai o gost a chynhyrchiant gwell yn ogystal â gwella lles yr anifeiliaid eu hunain.

- **Deall a derbyn swyddogaethau a chyfrifoldebau** – er mwyn cefnogi gweithio mewn partneriaeth, mae'n hanfodol bod pawb sy'n ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid yn cydnabod ac yn derbyn cyfrifoldeb. Ymhlith pethau eraill, mae hyn yn cynnwys:
  - perchnogion anifeiliaid a phob sy'n cadw anifeiliaid – sy'n gyfrifol am ddarparu ar gyfer anghenion corfforol a lles yr anifeiliaid yn eu gofal yn ogystal â'r cyfrifoldeb dros roi gwybod am unrhyw amheuaeth o glefydau a chymryd camau da i atal clefydau;
  - sefydliadau'r diwydiant – sy'n gallu **i**. Cefnogi perchnogion anifeiliaid i fabwysiadu safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid **ii**. Codi ymwybyddiaeth o'r safonau hyn ymhlith cynulleidfa ehangach **iii**. Rhannu a hyrwyddo arfer gorau
  - milfeddygon – yn ogystal â'r rôl draddodiadol o drin clefydau, gall milfeddygon gefnogi perchnogion anifeiliaid i fabwysiadu safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid drwy gyngor, arweiniad a chynllunio iechyd fferm. Mae ganddynt rôl bwysig hefyd i fynd i'r afael â chlefydau anifeiliaid a'u rheoli
  - Y Llywodraeth – sy'n gallu ymyrryd er mwyn **i**. Diogelu iechyd pobl **ii**. Diogelu a hyrwyddo lles anifeiliaid **iii**. Diogelu'r economi ehangach, yr amgylchedd a'r gymdeithas iv. Diogelu a chynrychioli buddiannau mewn masnach ryngwladol.
- **Gweithio mewn partneriaeth** – yr hyn sy'n hollbwysig i lwyddiant hyn yw mwy o gydweithredu a chydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, cynrychiolwyr y diwydiant, pobl sy'n cadw da byw a pherchnogion anifeiliaid eraill. Rhaid i adrannau ar draws Llywodraeth Cymru gydweithio hefyd yn ogystal â chydweithio â Gweinyddiaethau eraill ac asiantaethau darparu eraill.

- **Sicrhau gwell dealltwriaeth o gost a budd** – yn ogystal â deall y gost a budd a geir wrth i'r Llywodraeth ymyrryd, mae'n briodol cael cydbwysedd rhwng y trethdalwr a'r hyn y mae'r diwydiant yn atebol i'w dalu am gost iechyd a lles anifeiliaid. Bydd hyn yn gofyn am gryn dipyn o gydweithio ar draws adrannau sy'n gweithio gyda Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid (gweler **Adran Tri**), yn ogystal ag ymdrech ar y cyd rhwng y diwydiant, rhanddeiliaid a chynrychiolwyr eraill sydd â rôl uniongyrchol ac anuniongyrchol.
- **Darparu a gorfodi safonau yn effeithiol** – er ei bod yn dal yn bwysig lleihau'r baich rheoleiddiol a, lle y bo'n bosibl, chwilio am y ffyrdd mwyaf priodol o ddarparu, ceir ystod o ofynion gorfodol, yn benodol yng nghyswllt Cyfarwyddebau a Rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd, y mae angen cydymffurfio â hwy gan ein bod yn aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn sicrhau bod modd cydnabyddedig o ddefnyddio mesurau rheoli clefydau anifeiliaid a'u gorfodi os bydd angen. Y polisi arferol yw tynnu sylw rhanddeiliaid a pherchnogion da byw at fesurau newydd neu newidiadau i fesurau presennol.

Datblygu cynaliadwy

17. Mae cynaliadwyedd wrth wraidd agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru ac mae'n hyrwyddo'r lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ac yn gwella ansawdd bywyd pobl Cymru. Mae'n ymwneud â diffinio'r llwybr datblygu yn y tymor hir. Mae'n golygu pobl iach a chynhyrchiol; cymunedau bywiog a chynhwysol; amgylchedd amrywiol a chadarn ac economi ddatblygedig ac arloesol.

18. Mae iechyd a lles anifeiliaid yn gwneud cyfraniad pwysig at gynaliadwyedd y sector da byw, at y diwydiant bwyd a ffermio ehangach ac at gefn gwlad, yr amgylchedd, cymunedau gwledig a'r economi wledig yn gyffredinol.

19. Gyda datblygu cynaliadwy yn egwyddor drefniadol ganolog i Lywodraeth Cymru, mae canlyniadau strategol Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid wedi cael eu datblygu yng nghyd-destun lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach Cymru. Gwelwyd ymdrech i atgyfnerthu cysylltiadau â chanlyniadau cyffredinol megis gwarchod.

Twf gwyrdd

20. Gellir ystyried twf gwyrdd, yn ei ffurf symlaf, fel llwybr twf economaidd sy'n defnyddio adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae'n ffordd o feithrin twf a datblygiad economaidd, a sicrhau hefyd fod asedau naturiol yn parhau i ddarparu'r adnoddau a'r gwasanaethau amgylcheddol y mae ein lles yn dibynnu arnynt.

21. Bydd gweithredu Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn cyfrannu'n uniongyrchol i'r agenda Twf Gwyrdd. Bydd da byw iach yn help i ysgogi twf gwyrdd ein heconomïau gwledig, gwella effeithlonrwydd adnoddau o ran cynhyrchiant a gwydnwch. Mae'r pum canlyniad strategol (**Diagram Un**) yn adlewyrchu cwmpas y cyfraniad hwn.

22. Er enghraifft, y cyfraniad a wneir i'r agenda newid yn yr hinsawdd. Mae anifeiliaid iach yn helpu i ddiogelu lefelau cynhyrchiant a chynhyrchiad ffermwyr, lleihau colledion cyfalaf, lleihau effeithiau masnach negyddol yn ogystal â lleihau llygredd ac allyriadau CO_2.

23. Yn achos yr economi, gwelir effeithiau economaidd uniongyrchol os yw achos o glefyd yn codi. Un enghraifft sydd wedi'i defnyddio llawer yw clwy'r Traed a'r Genau a gododd yn 2001. Amcangyfrifwyd bod yr effaith economaidd ar amaeth, y diwydiant bwyd a'r sector cyhoeddus yn y DU yn £3.1 biliwn, wedi'i rhannu fel a ganlyn:

    - cynhyrchwyr amaethyddol: £355 miliwn
    - diwydiant bwyd: £170 miliwn
    - sector cyhoeddus: £2585 miliwn, a
    - defnyddwyr: £15 miliwn

24. Mae costau anuniongyrchol i'w hystyried hefyd. Eto, gan ddefnyddio clwy'r Traed a'r Genau yn enghraifft, amcangyfrifwyd fod y gost i dwristiaeth hefyd wedi bod rhwng £2.7 a £3.2 biliwn o golled mewn gwariant. Amcangyfrifwyd fod y gost anuniongyrchol i ddiwydiannau sy'n cyflenwi byd amaeth, y diwydiannau bwyd a'r busnesau sy'n ymwneud â thwristiaeth rhwng £1.9 biliwn a £2.3 biliwn, y golled i ddiwydiannau sy'n cyflenwi byd amaeth a'r gadwyn fwyd yn £85 miliwn, a'r golled i ddiwydiannau sy'n cyflenwi cwmnïau sy'n ymwneud â thwristiaeth rhwng £1.8 biliwn a £2.2 biliwn.

25. Yn olaf, y cyswllt rhwng bwyd a gwella hyder defnyddwyr. Mae da byw iach yn codi safonau ac yn gyfrwng marchnata. Mae da byw iach sy'n cael eu cadw i safonau lles uchel yn gyfle marchnata penodol, ac mae'n cynnig cyfleoedd busnes i ffermwyr.

26. Mae rhagor o wybodaeth am dwf gwyrdd ar gael drwy ddilyn y ddolen isod: http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/green-growth-wales/?skip=1&lang=cy

Adran Dau: Ffyrdd o weithio – Dull sy'n seiliedig ar Ganlyniadau

Dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau

27. Fel y nodir yn y cyflwyniad yn y ddogfen hon, amcanion cyffredinol y Fframwaith yw adeiladu ar y cynnydd a wnaed yng Nghymru i godi safonau iechyd a lles anifeiliaid drwy;

    - defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth er mwyn sicrhau canlyniadau cyffredin
    - gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu fframwaith monitro a gwerthuso cadarn, gyda sylfaen dystiolaeth gref yn sail iddo.

28. Mae defnyddio dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn cynnig ffordd o feddwl a gweithredu gyda'n gilydd sy'n syml ac yn synhwyrol. Mae'n broses sy'n symud yn gyflym o siarad i weithredu. Mae'n golygu dangos bod y camau a gymerir a'r adnoddau a ddefnyddir yn gwneud gwahaniaeth.

29. Drwy ddefnyddio'r dull hwn, gwelir ei fod yn;

    - diffinio canlyniadau strategol yn glir ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru a fydd yn glir ynghylch sut mae polisi iechyd a lles anifeiliaid a'r modd y gweithredir y polisi hwnnw yn effeithio ar bobl a chymunedau Cymru
    - mynd i'r afael â gwendid mawr Strategaeth flaenorol Prydain ar Iechyd a Lles Anifeiliaid sef nad oes fframwaith monitro cadarn ar waith i fesur effaith gweithgareddau yng Nghymru
    - sicrhau bod dull gweithio mewn partneriaeth sy'n arwain at gymryd camau'n ddi-oed yn rhan annatod o'r gwaith
    - darparu sylfaen dystiolaeth i fynd i'r afael â'r sbardunau ar gyfer newid a nodwyd yn yr adran flaenorol megis gallu ymateb i'r hinsawdd ariannol, newidiadau yn Ewrop, canolbwyntio ar flaenoriaethau Cymru
    - sicrhau dull sy'n cyd-fynd â datblygiad polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru ar draws portffolios

30. Er mwyn cynnig strwythur ar gyfer y dull hwn, dylid ystyried bod ganddo dau elfen allweddol:

Atebolrwydd am y boblogaeth

31. Mae atebolrwydd am y boblogaeth yn ymwneud ag ardal ddaearyddol, er enghraifft yr holl bobl yng Nghymru. Yn gryno, bydd grŵp o bartneriaid yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros les poblogaeth mewn ardal ddaearyddol. Mae'r dull hwn yn gofyn am weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb ar y cyd dros symud at gael gwell canlyniadau.

32. Yn achos Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid, mae pump canlyniad strategol (a ddisgrifir yn **Adran Un**) ar waith yn y canlyniadau poblogaeth sy'n cyfleu'r weledigaeth tymor hir ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru. Cytunwyd ar y rhain drwy ymgynghori â'r cyhoedd i helpu i sicrhau bod yr egwyddor o weithio mewn partneriaeth yn rhan greiddiol o hyn o'r cychwyn cyntaf.

Atebolrwydd am raglen a pherfformiad

33. Mae'r ail gydran yn ymwneud â sut y mae ymyriadau penodol yn gwneud gwahaniaeth ac yn perfformio ar gyfer buddiolwyr. Yn achos Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid, bydd hyn yn golygu'r blaenoriaethau polisi/prosiect cytunedig sydd ar waith i gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau strategol.

34. Er mwyn strwythuro trafodaethau a sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei chasglu, dylid gweithio drwy'r saith cwestiwn canlynol wrth ystyried blaenoriaethau:

    - Pa ganlyniadau ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid rydym ni am eu gwella?
    - Sut y byddem yn gwybod hyn pe gallem ei weld? Sut y gellid mesur hyn?
    - Pa ddata sydd ar gael i fesur canlyniadau? A oes unrhyw fylchau yn y data?
    - Beth yw'r tueddiadau presennol mewn perthynas â'r dulliau mesur pwysicaf?
    - Pa bartneriaid sy'n bwysig?
    - Sut y gellid gwneud yn well? Dylai hyn gynnwys syniadau na fyddant yn costio llawer, os o gwbl. Felly, beth rydym yn bwriadu ei wneud?

35. Gellir cofnodi'r wybodaeth ar gerdyn tystiolaeth (**Atodiad Un**). Gellir adolygu hyn wedyn a'i diweddaru'n rheolaidd er mwyn asesu cynnydd, cynnig llwybr tystiolaeth a helpu i wneud penderfyniadau ynghylch gweithredu yn y dyfodol. Sylweddolir na fydd y dystiolaeth o bosibl yn gallu cofnodi popeth sy'n gysylltiedig â blaenoriaeth benodol ond dylai ddarparu'r wybodaeth allweddol yn rhwydd.

36. Mae rhagor o wybodaeth am ddefnyddio'r dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau (enw clasurol – Atebolrwydd seiliedig ar ganlyniadau) drwy ddilyn y ddolen amgaeedig: www.raguide.org

Yr agenda datblygu data

37. Mae angen cael sylfaen dystiolaeth gadarn i gefnogi'r dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Anaml iawn y bydd gennym yr holl ddata angenrheidiol ar y cychwyn, ond gallwn ddechrau gyda'r data gorau sydd gennym, a chael data gwell.

38. Un o'r cwestiynau sylfaenol i'w hystyried wrth ddefnyddio'r dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau yw:

    Pa ddata sydd ar gael i fesur canlyniadau? A oes unrhyw fylchau yn y data?

39. Wrth ystyried y cwestiwn hwn, bydd sefyllfaoedd yn sicr o godi lle nad yw'r data sydd ei angen i ddangos cynnydd ar gael yn rhwydd neu nid yw'r data yn bodoli. Rhan bwysig o'r broses fydd cofnodi'r gofynion hyn fel rhestr flaenoriaeth o'r meysydd lle mae angen data newydd arnom neu ddata gwell, yr agenda datblygu data.

40. Cedwir yr agenda datblygu data yn ganolog gan dîm Monitro Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid a chaiff ei hadolygu bob chwarter (gweler **Adran Tri**). Bydd Llywodraeth Cymru a Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn ystyried gyda'i gilydd unrhyw benderfyniadau ynghylch comisiynu data newydd. Ar ben hynny, caiff partïon sydd â diddordeb eu hannog i gasglu data os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Adran Tri: Gweithredu, Monitro a Gwerthuso

41. Mae'r adran hon yn amlinellu'r mecanweithiau sydd ar waith i fonitro a gwerthuso'r cynnydd a wneir drwy Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid.

Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid

42. Sefydlwyd Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid i gefnogi'r dasg o weithredu Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid. Bydd y Grŵp yn helpu i gryfhau'r cysylltiadau rhwng Llywodraeth Cymru, pobl sy'n cadw da byw, perchnogion anifeiliaid eraill a chynrychiolwyr y diwydiant, a bydd yn trafod yr holl ystod o faterion sy'n gysylltiedig ag iechyd a lles anifeiliaid.

43. Prif swyddogaethau'r Grŵp fydd:

- Codi ac ystyried materion newydd a allai effeithio ar gyflawni canlyniadau strategol Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid.
- Ystyried sut y mae canlyniadau a blaenoriaethau'n cael eu cyflawni, yn arbennig o bwysig yn yr hinsawdd bresennol (ac yn y dyfodol) lle mae adnoddau o dan bwysau.
- Herio polisïau newydd a pholisïau sy'n datblygu.
- Cysylltu â'r diwydiant a helpu i gasglu gwybodaeth er mwyn llywio penderfyniadau'n well.
- Sicrhau bod cynnydd yn cael ei adolygu'n gyson, yn ogystal â nodi, cyflawni a, lle bo angen, hwyluso gwelliannau a phrosiectau.
- Hwyluso a symleiddio'r broses o gyfleu negeseuon allweddol a llif gwybodaeth fel rhan o strategaeth gyfathrebu ehangach.
- Creu a chynnal cysylltiadau â sefydliadau'r diwydiant a grwpiau cynrychiolwyr, byd amaeth yn gyffredinol a'r economi wledig yn ogystal â meysydd megis iechyd pobl, addysg, mynd i'r afael â thlodi ac ati.
- Perfformio rôl gynrychioladol – gall aelodau fod yn llefarwyr ar faterion yn ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid.

44. **Nid oes** gan y Grŵp y rhyddid i wneud penderfyniadau ynghylch sut y caiff arian ei ddyrannu, na llofnodi Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda chyrff cyflawni, na chymeradwyo cynlluniau wrth gefn na chymeradwyo ceisiadau.

45. Caiff y Grŵp ei gefnogi gan rwydweithiau arbenigol sy'n gallu cyfrannu at faterion newydd/materion sy'n datblygu neu faterion cyfredol yn ôl yr angen. Mae **Adran Pedwar** yn esbonio sut y gallwch gofrestru i ymuno â'r rhwydweithiau partneriaeth.

46. I gyd-redeg â'r cylchoedd cynllunio ac adrodd (**Diagram Dau**), bydd y Grŵp yn cwrdd yn ffurfiol bob chwarter.

47. Mae manylion llawn am aelodaeth a gwaith y Grŵp ar gael yma www.cymru.gov.uk/ahwfframwaith

Monitro Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid

48. Mae Tîm Monitro Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid wedi'i leoli o fewn Llywodraeth Cymru fel rhan o Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol. Mae'r tîm yn gyfrifol am y tasgau canlynol:

- Rhoi cymorth ysgrifenyddol i Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid.
- Cydlynu agweddau allweddol sy'n ymwneud â gweithredu a monitro Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid, gan gynnwys y cynllun gweithredu blynyddol, y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ac adolygiad diwedd blwyddyn.
- Cadw cofnod canolog o'r agenda datblygu data.
- Cydlynu'r strategaeth gyfathrebu, gan gynnwys y wefan, deunydd hyrwyddo, digwyddiadau ac ati.
- Rheoli gohebiaeth ac ymholiadau sy'n ymwneud â Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid.

Rhwydweithiau partneriaeth

49. Yr hyn sy'n allweddol wrth roi'r Fframwaith ar waith yw sicrhau mwy o gydweithredu gyda phartneriaid yn y diwydiant a phartneriaid eraill wrth gasglu, rhannu a defnyddio data i gytuno ar flaenoriaethau, nodi atebion a gwneud penderfyniadau effeithiol sy'n cynyddu effaith ac yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl.

50. I gefnogi'r dasg o weithredu Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid a gwaith Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid, bydd cronfa ddata ganolog ar gael er mwyn i randdeiliaid gofrestru eu diddordeb. Mae manylion sut mae cofrestru ar gael yn **Adran Pedwar**.

51. Un o'r cwestiynau a ddefnyddir yn y dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau yw "pa bartneriaid ddylai fod yn rhan?". Bydd y gronfa ddata yn gyfrwng i helpu i gael y bobl briodol at ei gilydd cyn gynted ag y bo modd er mwyn ystyried y ffordd ymlaen a'r camau i'w cymryd i gyflawni'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.

Cylch cynllunio ac adrodd

52. Bydd Llywodraeth Cymru a Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn cytuno ar gynllun gweithredu blynyddol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mawrth, ac yn ei gyhoeddi bob blwyddyn.

53. Bydd y cynllun yn amlinellu blaenoriaethau am y flwyddyn, sut y bydd y rhain yn cyfrannu at y canlyniadau strategol, y prif gyfrifoldebau a'r camau allweddol ar gyfer cyflawni. Caiff y cynllun ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Yn unol â'r dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau, caiff cerdyn tystiolaeth ei lunio a'i gadw ar gyfer pob blaenoriaeth.

54. Os bydd angen, mae modd cynnwys blaenoriaethau newydd yn ystod y flwyddyn er mwyn adlewyrchu sefyllfaoedd a allai godi. Disgwylir y bydd rhai blaenoriaethau'n parhau dros sawl blwyddyn ond efallai bydd gan rai eraill oes lawer byrrach ond y gallant, er hynny, gael cryn effaith.

55. Mae amlinelliad o'r cylch cynllunio ac adrodd ar gael isod;

Diagram Dau: Cylch Cynllunio ac Adrodd Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid



Adran Pedwar: Sut y gallwch fod yn rhan o hyn

56. Mae gan bob un ohonom gyfraniad i'w wneud i wella safonau iechyd a lles anifeiliaid ac rydym yn eich annog i fod yn rhan yn y ffyrdd canlynol.

Ymuno â'n rhwydweithiau partneriaeth

57. Fel y nodwyd yn gynharach yn y ddogfen, mae gwaith partneriaeth a mwy o gydweithredu â rhanddeiliaid yn elfen hollbwysig i'r dasg o weithredu'r Fframwaith. I gael y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf yn uniongyrchol am gyfleoedd i fod yn rhan, gallwch gofrestru eich diddordeb ar ein cronfa ddata rhanddeiliaid.

58. Llenwch y ffurflen gofrestru yn: **www.cymru.gov.uk/ahwfframwaith**

59. Os hoffech gael copi caled o'r ffurflen gofrestru, yna mae croeso ichi gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Ymweld â'n gwefan

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am y Fframwaith a Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid ar gael yn: **www.cymru.gov.uk/ahwfframwaith**

Dilyn ni ar Twitter

@CVOCymru

Cysylltu â ni

E-bost atom yn WAHFG@Cymru.gsi.gov.uk

Neu ysgrifennwch atom yn:

Tîm Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid
Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol
Adeiladau Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid

Templed Cerdyn Tystiolaeth

Pa ganlyniadau ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid rydym ni am eu gwella?	Poblogaeth
Dangosyddion Perfformiad Allweddol – Pa ddata sy'n bodoli i fesur canlyniadau?	Pa ddata arall sydd eu hangen arnom?
Esbonio'r Llinell Sylfaen – Pam mae problem? Beth yw'r tueddiadau cyfredol?	Partneriaid a all helpu
Camau gweithredu - Sut y gellid gwneud yn well?	